**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

Tachwedd 2015

Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliad.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565
E-bost: SeneddArchwilio@cynulliad.cymru
Twitter: @SeneddArchwilio

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2015
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

# Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf

Tachwedd 2015

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yw sicrhau bod gwaith craffu cywir a thrylwyr yn cael ei wneud ar wariant Llywodraeth Cymru. Nodir swyddogaethau penodol y Pwyllgor yn Rheol Sefydlog 18. Bydd y Pwyllgor yn ystyried adroddiadau gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfrifon Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ac ar ba mor ddarbodus, effeithlon ac effeithiol y caiff adnoddau eu defnyddio wrth gyflawni swyddogaethau cyhoeddus.

---

**Aelodau cyfredol y Pwyllgor**



**Darren Millar (Cadeirydd)**
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



**Mohammad Asghar**
Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



**Jocelyn Davies**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Sandy Mewies**
Llafur Cymru
Delyn



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Jenny Rathbone**
Llafur Cymru
Canol Caerdydd



**Aled Roberts**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru

---

# Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd ..... 5

Argymhellion y Pwyllgor ..... 6

1. Cyflwyniad ..... 8

2. Cynnydd o ran rhoi mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf ar waith ..... 9

3. Contract Cyflymu Cymru ..... 19

4. Cyfathrebu ynghylch rhoi Cyflymu Cymru ar waith ..... 21

5. Y nifer sy'n defnyddio band eang y genhedlaeth nesaf a'i fanteision ..... 26

Atodiad A: Tystion ..... 30

## Rhagair y Cadeirydd

Mae'r angen i gartrefi a busnesau Cymru fedru defnyddio band eang y genhedlaeth nesaf yn ystod yr unfed ganrif ar hugain yn dod yn gynyddol bwysig.

Penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad i'r gwaith o gyflwyno gwasanaethau band eang newydd a gwell yn dilyn adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai. Yn ei adroddiad, daeth yr Archwilydd Cyffredinol i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru yn gwneud "cynnydd rhesymol" wrth fwrw ymlaen â'i rhaglen i ddarparu gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf i bob eiddo yng Nghymru.

Yn ystod ein hymchwiliad, cawsom dystiolaeth gan BT/Openreach, sef y contractiwr sy'n ymgymryd â'r gwaith, a Llywodraeth Cymru. Fe'u holwyd am y modd roedd y contract i ehangu'r gwasanaethau band eang yn cael ei reoli, y problemau sy'n parhau a'r camau y mae'r ddau gorff yn eu cymryd i annog pobl i fanteisio ar wasanaethau band eang cyflymach.

Er bod ein hadroddiad yn cyfeirio at y ffaith bod gwasanaeth band eang cyflym iawn ar gael i nifer o gartrefi a busnesau erbyn diwedd mis Mehefin 2015, roedd hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru, ym mis Gorffennaf, wedi penderfynu ymestyn y dyddiad ar gyfer cwblhau'r prosiect i fis Mehefin 2017.

Mae casgliadau'r Pwyllgor a'r deg o argymhellion a ddeilliodd ohonynt, yn cyfeirio at faterion fel rheoli'r contract; yr angen i'r contract gynnwys targedau ac amserlenni clir; ac effeithiolrwydd strategaeth gyfathrebu'r contract.

Hyderaf y bydd yr argymhellion yn ddefnyddiol a gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn gallu eu cymhwyso i gyd-destunau eraill, fel y bo'n briodol.

Cymeradwyaf yr adroddiad hwn i bawb sy'n ei ddarllen.

Darren Millar AM
Cadeirydd

## Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth sy'n cyd-fynd â'r argymhellion a'r casgliadau:

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu sicrwydd na fydd yr estyniad i'r prosiect arwain at oedi pellach ar gyfer adeiladau a gafodd eu cynnwys yn y contract gwreiddiol ac yn parhau i fonitro cynnydd BT i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlen ddiwygiedig. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 2.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ar y cynllun i ddisodli Mynediad i Fand Eang Cymru ac i ddarparu mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i bob safle ar draws Cymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 3.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gysylltu â darparwyr gwasanaethau i ganfod y safleoedd hyn ac i ddod o hyd i ateb i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf i'r safleoedd anodd eu cyrraedd hynny. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 4.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran cyflwyno i safleoedd anodd eu cyrraedd ddim hwyrach na mis Medi 2016, gan gynnwys:

- y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflawni 100 megabit yr eiliad ar gyfer 40 y cant o safleoedd;
- gwybodaeth am pryd fydd pobl yn cael gwybod os nad ydynt yn debygol o gael band eang y genhedlaeth nesaf drwy'r contract Cyflymu Cymru;
- manylion yr opsiynau fforddiadwy sydd ar gael iddynt;
- nifer y safleoedd sydd wedi'u pasio; a'r
- wybodaeth ddiweddaraf ar yr argymhellion yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru. (Tudalen 17)

**Argymhelliad 5.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cadarnhad ynghylch llwyddiant cyflwyno Cyflymu Cymru, ac a yw wedi cael yr holl gyllid ERDF sydd ar gael o ganlyni (Tudalen 18)

**Argymhelliad 6.** Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o gynllunio a rheoli contract Cyflymu Cymru'n gyffredinol yn ei chanllawiau ei hun ar reoli rhaglenni a phrosiectau. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 7.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant gloywi ar drafodaethau contract yn ôl y gofyn a bod yr holl ganllawiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod ar gael i staff. (Tudalen 20)

**Argymhelliad 8.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda BT, fel mater o flaenoriaeth, er mwyn gwella effeithiolrwydd ei strategaeth gyfathrebu, gan gynnwys y wefan, ar gyfer gweddill y cyflwyniad a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau a wnaed i'r strategaeth i fynd i'r afael â'n pryderon. (Tudalen 25)

**Argymhelliad 9.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth, mewn egwyddor, i gynnwys, fel isafswm mewn contractau yn y dyfodol, manylion am dargedau dyheadol a'r disgwyliadau o ran erbyn pryd y dylid eu cyrraedd. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 10.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor, am y gwaith i wella cyfathrebu a marchnata ynghylch manteision mynediad at fand eang cyflym iawn, heb fod yn hwyrach na mis Medi 2016. (Tudalen 29)

# 1. Cyflwyniad

1. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn edrych ar gyflwyniad contract Cyflymu Cymru, ac fe ganfu bod BT yn gwneud cynnydd rhesymol tuag at ddarparu mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i safleoedd ledled Cymru a bod y gwaith i hybu'r manteision bellach yn mynd rhagddo. Roedd yr adroddiad hefyd yn nodi bod gwaith caffael a rheoli contract Cyflymu Cymru wedi bod yn effeithiol ar y cyfan, gyda rheolaethau priodol ar waith i reoli costau a chyflenwi.[1]

2. Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad ar 9 Mehefin 2015, ynghyd ag ymateb cychwynnol Llywodraeth Cymru i'r argymhellion yn yr adroddiad, a chytunodd i gynnal ymchwiliad byr. Edrychodd y Pwyllgor ar rôl BT fel contractwr yn cyflwyno contract Cyflymu Cymru ac edrychodd ar rôl Llywodraeth Cymru o ran cynllunio, caffael a rheoli contract Cyflymu Cymru, ynghyd â'u gweithgareddau i ysgogi'r defnydd o fand eang y genhedlaeth nesaf. Casglwyd yr holl dystiolaeth yng nghyd-destun argymhellion a phrif ganfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol. Mae rhestr lawn o'r tystion i'w gweld yn Atodiad A.

3. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei ymchwiliad. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd.

[1] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 8, Mai 2015

## 2. Cynnydd o ran rhoi mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf ar waith

4. Mae’r contract Cyflymu Cymru yn cynnwys targed bod 95 y cant o safleoedd yn yr ardal ymyrryd ddynodedig, 691,000 safle, yn cael mynediad erbyn mis Mehefin 2016.

5. Bu Llywodraeth Cymru yn profi a gwirio mynediad safleoedd at fand eang y genhedlaeth nesaf ac, erbyn diwedd mis Rhagfyr 2014, roedd 345,681 safle wedi pasio ac roedd BT wedi hawlio £81 miliwn.[2] Fe gyflawnodd BT hynny drwy gynyddu ar gyfartaledd nifer y safleoedd a gafodd eu pasio bob mis, gan ddyblu o 11,000 y mis ym mis Chwefror 2014 i 22,000 rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2014 a chynyddu eto i 25,900 o safleoedd y mis rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2014.[3]

6. Cafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer tynnu arian Ewropeaidd i lawr ei lleihau gan chwe mis ar ôl i’r Comisiwn Ewropeaidd oedi wrth gymeradwyo Cymorth Gwladol i Lywodraeth y DU ar gyfer holl brosiectau band eang y genhedlaeth nesaf y DU.[4] Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar, dywedodd BT ei fod yn parhau i fod yn hyderus o ran pasio 500,000 o safleoedd erbyn diwedd mis Mehefin 2015, ac os cyflawnir hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn gallu tynnu i lawr yr holl gyllid Cystadleurwydd ERDF.[5]

7. Ar 30 Medi 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru bod gan 504,352 safle fynediad at fand eang cyflym iawn yng Nghymru o ganlyniad i Cyflymu Cymru.[6] Holodd y Pwyllgor BT ar y cynnydd o ran cyflwyno contract Cyflymu Cymru a gofyn a oeddent yn fodlon ar gyflymder y cynnydd a gofyn pam y bu oedi ar adegau. Nododd BT eu bod yn wirioneddol falch gyda’r cynnydd a bod adroddiad yr

[2] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.9 - 2.10, Mai 2015
[3] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.12, Mai 2015
[4] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.2 - 2.5, Mai 2015
[5] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.13, Mai 2015
[6] http://gov.wales/newsroom/science-and-technology/2015/10550871/?skip=1&lang=cy

Archwilydd Cyffredinol yn cydnabod yr her o ran adeiladu'r seilwaith anferthol hwn.[7]

8. Esboniodd BT hefyd y bu oedi o ran y Comisiwn Ewropeaidd yn rhoi cymeradwyaeth i gymorth gwladwriaethol Llywodraeth y DU ar lefel yr UE a Broadband Delivery UK. Arweiniodd hynny at ad-drefnu'r cyflwyniad yn gyfan gwbl er mwyn cwrdd â dyddiad cau Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop. Disgrifiodd BT hynny fel gwaith sylweddol yn cynnwys ail-drafod contractau allweddol.[8]

9. Trafododd y Pwyllgor os gwnaeth y newidiadau i'r amserlen gyflwyno olygu bod BT wedi gallu manteisio ar gyfleoedd i gyflwyno yn gyflymach drwy dargedu'r safleoedd lleiaf trafferthus. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod hynny wedi arwain at broses weddol ddeinamig yn hytrach na chynllun manwl o flaen llaw. Holwyd BT sut y cafodd safleoedd eu dewis a blaenoriaethau eu pennu ar gyfer yr amserlen gyflwyno.

10. Eglurodd BT, ar wahân i Ardaloedd Menter ac ardaloedd twf, bod ganddynt rwydd hynt o ran lle i gyflwyno.[9] Pwysleisiwyd hefyd bwysigrwydd cyflwyno'r gwasanaethau mor gyflym â phosibl er mwyn sicrhau'r cyllid. Clywodd y Pwyllgor:

> "We have to pass many premises as quickly as possible to draw down the money to make sure we reach that target. It's absolutely key."[10]

11. O ystyried y newidiadau i'r amserlen gyflwyno, gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd nad oedd safleoedd anodd eu cysylltu yn cael eu hesgeuluso dros safleoedd sy'n haws i'w cysylltu. Dywedodd BT wrth y Pwyllgor:

> "We've done some very rural parts of Wales. Yes. We've done Dinas Mawddwy, for example. Llanberis pass and Dinas Mawddwy would be examples of when we've done a really, really difficult fibre-to the-premises build, and that's 20 km in one instance and 18 km in the other. It literally means putting new poles up and laying new ducting for the whole of that length. So, people in those areas, therefore—it will have taken

[7] Cofnod y Trafodion, paragraff 5, 30 Mehefin 2015
[8] Cofnod y Trafodion, paragraff 6, 30 Mehefin 2015
[9] Cofnod y Trafodion, paragraff 44, 30 Mehefin 2015
[10] Cofnod y Trafodion, paragraff 45, 30 Mehefin 2015

> us, possibly, a year to 18 months to build those two large pieces of FTTP [Fibre to the Premises]—at the end of that FTTP provision will get up to 330 Mb of fibre. So, it's quite phenomenal."[11]

12. Tynnodd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd sylw at anfodlonrwydd rhai awdurdodau lleol i roi Cyflymu Cymru ar waith oherwydd y diffyg cynnydd yn ystod cyfnodau cynharach o roi'r rhaglen ar waith - erbyn mis Medi 2014 – mewn ardaloedd diwydiannol allweddol fel parciau busnes, a bod rhai busnesau wedi'u cyfyngu i ddefnyddio llinellau costus, ar brydles, yn y cyfamser.[12]

13. Holodd y Pwyllgor BT ynghylch a oedd natur gostus y llinellau ar brydles a'r elw i BT a chwmnïau eraill o ganlyniad wedi arwain at rywfaint o wrthwynebiad gan y cwmnïau hynny i gyflwyno Cyflymu Cymru yn yr ardaloedd hynny.[13]

14. Pwysleisiodd BT nad oeddent yn dethol o ran cyflwyno a chadarnhau eu bod yn cyflwyno mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf mewn ystadau diwydiannol, gan ychwanegu:

> "There's a perception that there could be lost revenue from leased lines, but that's just not the case."[14]

15. Wrth egluro pam nad yw rhai ardaloedd diwydiannol yn rhan o'r cyflwyniad masnachol, dywedodd BT wrth y Pwyllgor:

> "…commercially, in places like Cardiff, on industrial estates, because there tend to be sparse numbers of premises, it still costs the same amount of money to deploy broadband into one of those areas as it does into a heavily residential area, but because there are fewer premises, that means less take-up, which means the commercial viability hurdles are different. So, in those areas, you maybe do need to have the likes of Cyflymu Cymru coming in if there's state aid clearance in order to enable them. Elsewhere across Wales, industrial estates in Powys and Ceredigion are in scope, and we're doing them."[15]

[11] Cofnod y Trafodion, paragraff 52, 30 Mehefin 2015
[12] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.28 - 2.30, Mai 2015
[13] Cofnod y Trafodion, paragraff 88, 30 Mehefin 2015
[14] Cofnod y Trafodion, paragraff 90, 30 Mehefin 2015
[15] Cofnod y Trafodion, paragraff 71, 30 Mehefin 2015

16. Ar ôl holi pellach, esboniodd BT fod angen i'r cyflwyniad hefyd gymryd i ystyriaeth y segmentau gwahanol yn y farchnad, gan dynnu sylw at y canlynol:

> "...if you look at city centres, the core heart of Cardiff or the core heart of London, what you're finding is that it isn't commercially attractive to deliver fibre broadband—that is, the Cyflymu Cymru level of service—into those city centres, because there is a kind of market failure, because people in those city centres will predominantly be buying Ethernet, and therefore the case to invest commercially isn't there. So, ironically, you're probably more likely to get Cyflymu Cymru in Ruthin than in the arcades in the middle of Cardiff, because there is no European cover for urban state aid intervention in the core heart of cities, but there is, we argue, market failure."[16]

17. Mae'r contract Cyflymu Cymru yn cynnwys 14 ardal blaenoriaeth, a gafodd eu seilio'n rhannol gan Lywodraeth Cymru ar y saith ardal fenter yng Nghymru, sef yr ardaloedd allweddol ar gyfer twf economaidd. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod BT wedi parhau i gyflwyno yn yr ardaloedd hynny a rhagori ar dargedau cytundebol mis Medi 2014 ar gyfer yr ardaloedd hynny, gan gynnwys cyflwyno i 35 y cant o'r holl godau post yn yr ardaloedd menter perthnasol.[17]

18. Eglurodd BT:

> "…we were asked to start work in the enterprise zones and the growth zones—the Powys growth zone and the Teifi valley growth zone—early. We've been making pretty good progress. We haven't completed in those areas yet by any stretch of the imagination, but they are certainly in scope. The connectivity in those areas has been transformed over the last couple of years."[18]

19. Rhoddodd BT esboniad manwl i'r Pwyllgor am rai o'r cymhlethdodau ynghlwm wrth osod cabinetau, yn enwedig pan fydd anawsterau o ran cael pŵer at y cabinetau. Mewn rhai achosion, mae

[16] Cofnod y Trafodion, paragraff 91, 30 Mehefin 2015
[17] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.15, Mai 2015
[18] Cofnod y Trafodion, paragraff 73, 30 Mehefin 2015

hyn wedi arwain at orfod adeiladu ffibr i'r safle, sy'n gallu cymryd hyd at 18 mis. Clywodd y Pwyllgor:

> "It's very difficult to predict the FTTP exact go live date because we're building physical pieces of fibre underground or on poles, and which switch it on when that particular stretch is completed."[19]

20. Er mwyn cyrraedd y targed o sicrhau y caiff pob safle yng Nghymru fynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf, bydd angen i Lywodraeth Cymru lenwi'r bwlch ar gyfer safleoedd yng Nghymru a fydd heb fynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf yn dilyn y cyflwyniad masnachol a chyflwyno Cyflymu Cymru. Ni fydd union nifer a lleoliad y safleoedd na fydd yn cael mynediad yn hysbys tan y bydd y gwaith cyflwyno wedi'i gwblhau.

21. Ar ôl clywed hynny, holodd yr Aelodau BT ynghylch a ddylent fod yn gwybod pa safleoedd fyddai'r rheiny cyn dechrau'r gwaith cyflwyno er mwyn gwybod pa safleoedd fydd angen mwy o waith er mwyn cyflwyno Cyflymu Cymru. Cyfeiriodd yr Aelodau at y ffaith fod gan BT rwydwaith bresennol, ond nad oedd digon o wybodaeth am sut y caiff y rhwydwaith ei wasanaethu.

22. Dywedodd BT wrth yr Aelodau:

> "Well, we had a modelled solution that gave us an idea of which are going to be fibre to the premises and which are going to be fibre to the cabinet, and those assumptions have changed markedly over time. We've got a responsibility, because there is public money involved in this, to make sure we're spending money cost-effectively. Fibre to the cabinet is significantly cheaper in general than fibre to the premises. So, we've whittled down the amount of fibre to the premises that we're delivering."[20]

23. Esboniodd BT ymhellach:

> "We know our network well, but we are deploying fibre broadband in some very rural parts of Wales. You have to have people that physically go out there on the ground to take a look around—'What premises are there? How can I cluster them

[19] Cofnod y Trafodion, paragraff 121, 30 Mehefin 2015
[20] Cofnod y Trafodion, paragraff 152, 30 Mehefin 2015

together?'—and crunch all that information together and then decide what the best solution is. The algorithms are generally right, but there are instances where you change, and we're also trying to deliver a cost-effective solution for the public purse as well."[21]

24. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn darparu cyllid i lenwi rhai o'r bylchau drwy'r cynllun Mynediad Band Eang Cymru, a gaiff ei arwain yn ôl y galw, ac sy'n darparu grantiau o hyd at £1,000 ar gyfer gosod band eang cyflymach mewn ardaloedd lle mae cyflymder band eang yn llai na 2 megabit yr eiliad. Fodd bynnag, mae'r diddordeb yn y cynllun wedi bod yn isel ac mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r cynllun.[22]

25. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan ei bod wrthi'n datblygu cynllun newydd i ddarparu mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i bob safle ar draws Cymru, gan awgrymu bod Mynediad Band Eang Cymru wedi bod yn llwyddiant.[23] Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod y cynllun newydd hwn ar fin cael ei gyflwyno.

26. Mewn datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar 7 Gorffennaf 2015, cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg bod y contract Cyflymu Cymru gyda BT wedi cael ei ymestyn i gynnwys mwy na 42,000 safle ychwanegol newydd a safleoedd eraill a oedd i fod yn rhan o'r cyflwyniad masnachol yn wreiddiol. Ar ben hynny, byddai'r dyddiad ar gyfer cwblhau cyfnod adeiladu'r contract yn cael ei ymestyn hyd at fis Mehefin 2017.[24] Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

> "Bydd BT yn dal i gyrraedd targed gwreiddiol y contract o 655,000[25] o adeiladau erbyn yr haf nesaf. Bydd uchafswm y grant sy'n daladwy o dan y prosiect yn cynyddu gan tua £19 miliwn a bydd BT hefyd yn buddsoddi cyllid ychwanegol sylweddol."[26]

---

[21] Cofnod y Trafodion, paragraff 167, 30 Mehefin 2015
[22] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, paragraff 2.19 ac argymhelliad 4, Mai 2015
[23] PAC(4)-20-15 Papur 1, 7 Gorffennaf 2015
[24] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015
[25] Nodyn: 655,000 yw'r targed yn y contract ar gyfer 90% i gael mynediad at 30+ megabit yr eiliad. Mae'r contract hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i 95% o safleoedd i gael mynediad at 24+ megabit yr eiliad
[26] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015

27. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod 96 y cant o bobl a safleoedd ledled Cymru yn cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn mis Medi 2016.[27] Esboniodd BT wrth y Pwyllgor, ar gyfer pob canran sy'n cael mynediad uwchlaw 20 y cant, bod mecanwaith rhannu elw ar waith, sy'n golygu bod hanner yr elw yn cael ei rannu â Llywodraeth Cymru ar gyfer ei ail-fuddsoddi i mewn i'r rhwydwaith, gan gynnwys buddsoddi yn y 4 y cant o'r safleoedd sy'n weddill.[28] Fodd bynnag, nid oedd yn glir i'r Pwyllgor a oedd y 4 y cant o'r safleoedd sy'n weddill wedi cael eu hadnabod, neu a fyddai modd rhoi mynediad i'r safleoedd hynny.[29]

28. O dan y contract, mae'n rhaid i BT ddarparu mynediad i gyflymder band eang y genhedlaeth nesaf dros 100 megabit yr eiliad o leiaf i 40 y cant o'r safleoedd a gaiff eu pasio. Fodd bynnag, erbyn diwedd 2014, dim ond 0.1 y cant o'r safleoedd oedd â mynediad i'r cyflymderau hyn ac nid oes unrhyw gosbau ariannol penodol yn y contract pe na bai BT yn llwyddo i gyrraedd y targed.[30] Roedd ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan fod yna bellach 9,900 o safleoedd sy'n gallu derbyn cyflymder o 100 megabit yr eiliad o leiaf (er bod nifer y safleoedd a basiwyd, yn ôl adroddiad i'r Pwyllgor gan BT yn parhau i fod tua 2 y cant o'r cyfanswm yn unig).

29. Roedd adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi nad yw BT wedi cadarnhau â Llywodraeth Cymru sut y bydd yn cyflawni'r targed hwn o 40 y cant, ac mae argymhelliad 2 yr adroddiad yn nodi bod angen i Lywodraeth Cymru sicrhau bod gan BT gynlluniau priodol, manwl a chadarn i gyrraedd y targed hwn.

30. Mae adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol hefyd yn nodi bod un o gynnyrch allweddol BT, sef Fibre on Demand, wedi'i atal ar hyn o bryd, er bod BT yn bwriadu ei ailgyflwyno. Dywedodd BT wrth y Pwyllgor y byddai'n adfer ei gynnyrch Fibre on Demand cyn hir, i'w alluogi i gyrraedd y targed cytundebol erbyn 30 Mehefin 2016.[31] Mewn gohebiaeth â'r Pwyllgor, nododd Llywodraeth Cymru:

---

[27] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015
[28] Cofnod y Trafodion, paragraffau 201-213, 30 Mehefin 2015
[29] Cofnod y Trafodion, paragraffau 180-189, 7 Gorffennaf 2015
[30] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraffau 2.16 - 2.18, Mai 2015
[31] Cofnod y Trafodion, paragraffau 222-224, 30 Mehefin 2015

> "…through negotiations with BT in Wales 'Fibre on Demand' will be available across the majority of the country. This is a business-focussed ultrafast broadband technology, which will be available by the end of summer 2015 to the majority of premises in Wales."[32]

31. Mae'r Pwyllgor ar ddeall bod Fibre on Demand, cynnyrch BT *Openreach*, bellach wedi'i adfer a'i fod ar gael.[33]

32. Ar 7 Gorffennaf 2015, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cael mynediad at y cyflymder band eang cywir i fusnesau a bod nifer o barciau busnes ac ystadau diwydiannol angen gweithredu ar frys i wella eu cysylltedd.[34] Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

> "Felly, ar 30 Mehefin, cytunwyd contract gydag Airband, arbenigwyr mewn band eang diwifr cyflym, i dargedu bron i 2,000 o'r 45,000 o adeiladau ychwanegol mewn parciau busnes ac ystadau diwydiannol ledled Cymru, hefyd i'w gwblhau erbyn haf 2016.
>
> "Trwy ein trafodaethau gyda BT yng Nghymru, bydd ffibr ar alw ar gael ar draws y rhan fwyaf o'r wlad. Technoleg band eang gwibgyswllt sy'n canolbwyntio ar fusnesau yw hon, a fydd ar gael erbyn diwedd haf 2015 i'r rhan fwyaf o adeiladau yng Nghymru."[35]

*Ein barn ni*

33. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod BT yn gwneud cynnydd tuag at gyflawni'r targed cyffredinol o 691,000 safle'n cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf erbyn diwedd Mehefin 2016. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu, oherwydd yr oedi sydd wedi bod, yn enwedig o ran cyflwyno ffeibr i'r safle, ei bod yn ymddangos nad oes gan BT ddigon o wybodaeth am ei rwydwaith.

34. Er ein bod yn croesawu'r estyniad i ychwanegu 42,000 safle i'r contract ar draws Cymru, mae'r Pwyllgor eisiau sicrwydd na fydd yr

---

[32] PAC(4)-22-15 PTN1, 15 Medi 2015
[33] www.openreach.co.uk/orpg/home/products/super-fastfibreaccess/fibretothepremisesondemand/fttpod.do [fel ar 3 Tachwedd 2015]
[34] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015
[35] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015

estyniad yn arwain at oedi pellach ar gyfer safleoedd a gafodd eu cynnwys yn y contract gwreiddiol. Ni fyddai'n dymuno gweld unrhyw estyniad pellach i amserlen y contract.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu sicrwydd na fydd yr estyniad i'r prosiect arwain at oedi pellach ar gyfer adeiladau a gafodd eu cynnwys yn y contract gwreiddiol ac yn parhau i fonitro cynnydd BT i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlen ddiwygiedig.**

35. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r targed i sicrhau bod 96 y cant o eiddo yn cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf, ond mae ganddo bryderon ynghylch y diffyg manylion ar sut y gellir rhoi mynediad i fand eang y genhedlaeth nesaf i'r 4 y cant o safleoedd sy'n weddill.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ar y cynllun i ddisodli Mynediad i Fand Eang Cymru ac i ddarparu mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i bob safle ar draws Cymru.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gysylltu â darparwyr gwasanaethau i ganfod y safleoedd hyn ac i ddod o hyd i ateb i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf i'r safleoedd anodd eu cyrraedd hynny.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran cyflwyno i safleoedd anodd eu cyrraedd ddim hwyrach na mis Medi 2016, gan gynnwys:**

- **y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflawni 100 megabit yr eiliad ar gyfer 40 y cant o safleoedd;**
- **gwybodaeth am pryd fydd pobl yn cael gwybod os nad ydynt yn debygol o gael band eang y genhedlaeth nesaf drwy'r contract Cyflymu Cymru;**
- **manylion yr opsiynau fforddiadwy sydd ar gael iddynt;**
- **nifer y safleoedd sydd wedi'u pasio; a'r**
- **wybodaeth ddiweddaraf ar yr argymhellion yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cadarnhad ynghylch llwyddiant cyflwyno Cyflymu Cymru, ac a yw wedi cael yr holl gyllid ERDF sydd ar gael o ganlyniad.**

# 3. Contract Cyflymu Cymru

36. Arwyddodd Llywodraeth Cymru gontract gyda BT ym mis Mehefin 2012 ar gyfer darparu seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf mewn ardaloedd o Gymru lle'r oedd y sector preifat wedi penderfynu nad oedd yn fasnachol ymarferol i wneud hynny. Cafodd cyfraniad y sector cyhoeddus i'r contract ei gapio ar £205 miliwn ac mae'r gost i'r sector cyhoeddus fesul safle o fewn ystod costau prosiectau band eang y genhedlaeth nesaf yn y DU a gaiff eu hariannu gan y wladwriaeth. Adroddwyd bod cyfraniad BT yn £26 miliwn o gyllid cyfalaf, yn ogystal â £19 miliwn o wariant cyfalaf ychwanegol a £82 miliwn o wariant gweithredol y tu allan i'r contract.[36] Mae'r cap ar gyllid y sector cyhoeddus wedi cael ei gynyddu gan £19 miliwn o ganlyniad i ychwanegu 42,000 safle i'r contract. Bydd BT hefyd yn buddsoddi arian ychwanegol sylweddol.[37]

37. Mae'r contract yn cynnwys nifer o ddarpariaethau sy'n diogelu buddsoddiad y sector cyhoeddus ac yn trosglwyddo'r risg i BT. Yn ogystal â'r cap ar gyfraniad y sector cyhoeddus, mae trefniadau diogelwch yn y contract mewn perthynas â:

- llywodraeth Cymru yn cadw cyllid tan fod BT wedi cyrraedd y targedau blynyddol a diwedd y contract;
- llywodraeth Cymru yn talu costau gwirioneddol wedi'u cysoni; cymharu costau yn erbyn costau cyflwyno masnachol BT, a
- proses brofi a dilysu i sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn talu am safleoedd cymwys yn unig.

38. Ceir darpariaethau nodedig eraill o fewn y contract i ddiogelu buddsoddiad y sector cyhoeddus. Mae'r manylion hyn yn fasnachol sensitif ac wedi eu dileu o'r fersiwn a gyhoeddir.[38]

39. Mae argymhelliad 7 yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru rannu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod trafod y contract yn fewnol a gyda'r sector cyhoeddus yn ehangach. Mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio

---

[36] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, Mai 2015
[37] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 7 Gorffennaf 2015
[38] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, paragraff 1.28 a Ffigur 5, tudalen 26, Mai 2015

ar y gwersi a ddysgwyd o gynllunio a rheoli contract Cyflymu Cymru'n gyffredinol yn ei chanllawiau ei hun ar reoli rhaglenni a phrosiectau (argymhelliad 6). Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan y bydd y gwersi a ddysgwyd yn rhan o'r fframwaith gwersi corfforaethol a ddysgwyd ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau, ac y bydd yn gweithio gyda Gwerth Cymru i ledaenu'r gwersi caffael a ddysgwyd.

*Ein barn ni*

40. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi canfyddiadau'r Archwilydd Cyffredinol y dylai Llywodraeth Cymru rannu'r gwersi a ddysgwyd yn ystod trafod y contract yn fewnol a gyda'r sector cyhoeddus yn ehangach.

**Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o gynllunio a rheoli contract Cyflymu Cymru'n gyffredinol yn ei chanllawiau ei hun ar reoli rhaglenni a phrosiectau.**

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant gloywi ar drafodaethau contract yn ôl y gofyn a bod yr holl ganllawiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod ar gael i staff.**

# 4. Cyfathrebu ynghylch rhoi Cyflymu Cymru ar waith

41. Mae contract Cyflymu Cymru yn cynnwys £1.7 miliwn i BT wneud gwaith marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer aelwydydd a busnesau ynghylch band eang y genhedlaeth nesaf. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol fod y cynllun marchnata gwreiddiol yng nghais BT ar gyfer y contract yn cynnwys cynlluniau manwl ar gyfer desg gymorth dros y ffôn a chyfleuster gwefan eSgwrsio, ond cytunodd BT a Llywodraeth Cymru wedyn i ddileu'r elfennau hynny. Mae'r gwaith marchnata a chyhoeddusrwydd yn cynnwys rheoli gwefan Cyflymu Cymru, safle Twitter a safle Facebook; cysylltu ag awdurdodau lleol; digwyddiadau ar gyfer busnesau; dosbarthu taflenni o ddrws i ddrws; hysbysebu mewn papurau newydd ac ar hysbysfyrddau; a datganiadau i'r wasg.[39]

42. Dywedodd BT wrth y Pwyllgor:

> "three people in BT who are working on what we call the marketing, and the primary thing that they spend their time doing is answering direct queries that come in on e-mail, Facebook or Twitter. We post on Facebook when we've made an area live and we boost those posts so that, if you're living in that area, it's the first thing you see. We find Facebook, incidentally, the most cost-effective and effective way of getting to people. We have 22 marketing plans for the 22 local authorities. We do localised press announcements, branded vans, press adverts, phone kiosks, billboards, we've dropped over 0.5 million leaflets this year, radio advertising, back-of-the bus advertising, we've exploited the BT retail relationship with the four Welsh rugby regions, we've had branding on the shirts at no cost, Facebook advertising, social media—you name it. We've been doing that very cost-effectively by using the buying power of BT."[40]

43. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, amlinellodd Llywodraeth Cymru fanylion y gwaith a wnaed i wella'r cyfathrebu ynghylch cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf yn lleol. Mae'r strategaeth yn cynnwys:

---

[39] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, paragraffau 2.33 - 2.34, Mai 2015
[40] Cofnod y Trafodion, paragraff 193, 30 Mehefin 2015

- diwygio'r wybodaeth yn yr adran 'ble a phryd' ar y wefan i gynnwys pryd fydd y gwaith i roi mynediad i safle yn cael ei gwblhau;
- pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cael aelod penodedig yn nhîm marchnata BT fel pwynt cyswllt. Timau marchnata BT a Llywodraeth Cymru yn cyfarfod bob pythefnos i adolygu cynnydd a chynllunio ymlaen llaw; ac
- ymchwil pellach i helpu i lywio gwaith cyfathrebu yn y dyfodol, gan gynnwys ymchwil i gynorthwyo gyda deall pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i drigolion a busnesau.[41]

44. Wrth holi swyddogion Llywodraeth Cymru ar y strategaeth gyfathrebu hon, ceisiodd y Pwyllgor sefydlu beth yn union y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gyflawni gyda'r £1.7 miliwn ar gyfer cyfathrebu argaeledd band eang y genhedlaeth nesaf. Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at y Pwyllgor yn amlinellu'r amcanion a'r strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu a gytunwyd rhwng Llywodraeth Cymru a BT. Roedd y rheiny'n cynnwys:

- codi ymwybyddiaeth am Cyflymu Cymru ymhlith cynulleidfaoedd allweddol trwy ddarparu gwybodaeth gyfredol a chredadwy am y rhaglen, y broses gyflwyno a'r amserlen;
- ymgysylltu'n rheolaidd â rhanddeiliaid allweddol fel eu bod yn hysbys ac yn gallu hyrwyddo'r prosiect;
- annog pobl i fanteisio ar fand eang ffibr yn ardal ymyrryd Cyflymu Cymru drwy dynnu sylw at fuddion y prosiect i aelwydydd yng Nghymru;
- amlinellu'r buddion i Gymru a chymdeithas Gymreig, yn economaidd ac yn gymdeithasol, o fuddsoddi mewn band eang cyflym iawn; a
- thynnu sylw at y buddion i sefydliadau trydydd sector a'r sector cyhoeddus o ran defnyddio a chyflenwi gwasanaethau drwy ffibr cyflym.[42]

45. Canfu arolwg gan Swyddfa Archwilio Cymru, ar ôl y cyflwyniad, bod traean o aelwydydd a busnesau ledled Blaenau Gwent a Gwynedd

[41] PAC(4)-20-15 Papur 1, 7 Gorffennaf 2015
[42] PAC(4)-22-15 PTN1, 15 Medi 2015

yn ymwybodol o Cyflymu Cymru.[43] Roedd Llywodraeth Cymru a BT wedi nodi eu bod yn gyffredinol fodlon ar y lefel o ymwybyddiaeth a nododd gan yr arolwg, o ystyried pryd y cafodd ei gynnal.

46. Roedd cyfathrebu, naill ai drwy'r post yn uniongyrchol neu drwy roi sticeri ar y cabinetau, wedi arwain at rwystredigaeth bellach pan nad oedd yn cyd-fynd â phrofiadau cwsmeriaid. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn barod i hepgor cyfyngiadau cynllunio i ganiatáu sticeri ar gabinetau i ddweud eu bod wedi cael eu huwchraddio drwy Cyflymu Cymru, bod tri awdurdod lleol yn dal yn amharod i wneud hynny.[44]

47. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod BT yn darparu gwybodaeth am y cyflwyniad drwy wefan Cyflymu Cymru a bod y wybodaeth, ers uwchraddio'r wefan yn ystod haf 2014, wedi gwella, er bod y wefan yn rhoi mwy o fanylion ar gyfer rhai ardaloedd nag eraill.[45] Fodd bynnag, ar gyfer rhai safleoedd, mae'r wybodaeth ar wefan Openreach BT ychydig yn wahanol i'r hyn sydd ar wefan Cyflymu Cymru.

48. Dywedodd BT mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor ei fod yn edrych eto ar sut y gallai, yn ystod gweddill y gwaith cyflwyno, ddarparu gwybodaeth fwy benodol. Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol yn nodi y bydd y wybodaeth ar wefan yn cael ei newid fel ei bod yn rhoi manylion ynghylch pryd y bydd y gwaith i roi mynediad i safleoedd yn cael ei gwblhau.

49. Cododd y Pwyllgor bryderon bod natur y cyflwyniad wedi achosi rhwystredigaeth. Er enghraifft, nid oedd trigolion yn gwybod pryd y byddent yn cael eu cysylltu. Mewn tystiolaeth lafar, esboniodd BT rai o'r anawsterau o ran darparu sicrwydd ynghylch cyflwyniad, gan ddweud:

> "It's near impossible to predict and to be able to tell people, with certainty, 'Your premises will get cyflymu broadband on a particular date'. And the way that we've approached it—which we are looking at, incidentally, as a result of the Auditor

---

[43] Roedd rhoi band eang y genhedlaeth nesaf ar waith drwy'r contract Cyflymu Cymru ar draws Blaenau Gwent a Gwynedd bron wedi'i gwblhau ar adeg yr arolwg. Roedd yr arolwg dros y ffôn yn cynnwys 500 o aelwydydd a 500 o fusnesau.

[44] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf paragraff 2.36, Mai 2015

[45] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, paragraffau 2.41 - 2.44, Mai 2015

General's report—was borne out of the experience that BT had had over many years of rolling out fibre broadband, because people make decisions, even if you caveat it, on moving house, starting businesses, moving businesses and so on. And if I can't promise you with a high degree of certainty that you're going to have a service on a particular date, then I don't think I should try to do that."[46]

50. Clywodd y Pwyllgor bod oedi hefyd yn gallu digwydd mewn ardaloedd heb anawsterau, er enghraifft, darganfod madfallod mewn safle neu dirfeddianwyr yn gwrthod mynediad mewn rhai achosion.[47]

51. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru hefyd yn cyfeirio at yr anawsterau o ran bod yn fanwl gywir gyda dyddiadau cysylltu, gan ddweud:

> "What we're able to do is talk in general terms, but not be absolutely specific and say, 'On this date, we guarantee you will get service' because, as I think BT described last week, if we were to make those commitments, then people make other plans on the back of that, and I think that exposes us to other risks as well, if we are absolutely upfront."[48]

*Ein barn ni*

52. Mae'r Pwyllgor o'r farn y gellir fod wedi gwella'r strategaeth gyfathrebu i gynorthwyo gyda chyflwyniad Cyflymu Cymru, a ddatblygwyd gan BT ac a ariannwyd drwy gontract Lywodraeth Cymru, a'i fod, ar adegau, wedi bod yn gamarweiniol ac wedi codi disgwyliadau cymunedau a busnesau mewn ffordd nad oedd yn gynorthwyol. Nododd y Pwyllgor fod rhai aelwydydd a busnesau wedi cael anawsterau wrth geisio cael gwybodaeth, yn arbennig o ran a fyddai band eang y genhedlaeth nesaf ar gael mewn safle penodol, a phryd. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel rhan o strategaeth gyfathrebu Cyflymu Cymru yn rhagdybio bod pob cwsmer yn eu defnyddio fel dull o gyfathrebu. Nid yw hynny'n wir ym mhob achos ac mae angen defnyddio cyfryngau cyfathrebu eraill.

---

[46] Cofnod y Trafodion, paragraff 113, 30 Mehefin 2015
[47] Cofnod y Trafodion, paragraff 117, 30 Mehefin 2015
[48] Cofnod y Trafodion, paragraff 16, 7 Gorffennaf 2015

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda BT, fel mater o flaenoriaeth, er mwyn gwella effeithiolrwydd ei strategaeth gyfathrebu, gan gynnwys y wefan, ar gyfer gweddill y cyflwyniad a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau a wnaed i'r strategaeth i fynd i'r afael â'n pryderon.**

## 5. Y nifer sy'n defnyddio band eang y genhedlaeth nesaf a'i fanteision

53. Dywed adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol bod 13 y cant o safleoedd, hyd at fis Rhagfyr 2014, yn ardal ymyrryd Cyflymu Cymru wedi dewis gwasanaethau band eang y genhedlaeth nesaf drwy uwchraddio eu gwasanaeth, a bod tuedd ar i fyny yn y niferoedd ers codi'r gwaharddiad ar gabinetau.[49] Dywedodd BT yn ei dystiolaeth lafar bod tua 14 y cant wedi ei ddewis hyd yma, gyda 20 y cant o safleoedd yn ei ddewis ar ôl cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf am dros flwyddyn.[50]

54. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod y niferoedd sydd wedi cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf am dros flwyddyn yn agos i 22 y cant.[51]

55. Ychwanegodd Llywodraeth Cymru:

> "I think the average, across the intervention area for all premises is about 13 per cent. So, that includes premises that have just been enabled. So, on any day, or any week, there might be 30 or 40 new cabinets installed, which might be bringing in thousands of new customers. So, that's always going to dilute the average take-up down. So, we tend to look at the one-year rolling average. I suppose, if we take a step back and think about what that means for us in financial terms, we've got seven years of an operational phase, once BT finish, where every percentage point above 21 per cent means that we have a share of BT's profits. So, actually, the fact that we're at 22 per cent now and we're a year before the operational phase begins is great news for us."[52]

56. O ystyried pwysigrwydd ariannol y niferoedd sy'n ei ddefnyddio, holodd y Pwyllgor am fanylion pellach ar sut y mae'r mecanwaith rhannu elw yn gweithio a sut y mae Llywodraeth Cymru yn monitro a

---

[49] Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru, Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn seilwaith band eang y genhedlaeth nesaf, paragraff 2.47 a Ffigur 7, tudalen 44, Mai 2015
[50] Cofnod y Trafodion, paragraff 216, 30 Mehefin 2015
[51] Cofnod y Trafodion, paragraff 97, 7 Gorffennaf 2015
[52] Cofnod y Trafodion, paragraff 100, 7 Gorffennaf 2015

yw'r rhan o'r elw y mae'n ei derbyn yn adlewyrchiad teg o'r elw a wneir gan BT.[53] Dywedodd Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor:

> "There are various data sets that BT are required to give us under the contract, which we will use to make sure that what they tell us can be audited and checked against."[54]

57. Ychwanegwyd:

> "…there's a formula in the contract that takes inputs from a number of different sources, and for us to be absolutely sure that we're getting best value for money, and that BT are providing all the information that we need, we've got to be able to go back to first principles on all of those variables."[55]

58. Cododd y Pwyllgor bryderon ynghylch diffyg defnydd o fand eang cyflym iawn mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. O ganlyniad, nid yw'r ardaloedd hynny'n gallu elwa ar fanteision economaidd y gwasanaeth. Wrth ymateb i'r pryderon hyn, dywedodd BT wrth y Pwyllgor bod: "lack of understanding of how to exploit this technology". Ond, roedd yn croesawu rhaglen datblygu busnes Llywodraeth Cymru, gan ychwanegu:

> "needs to be accelerated and it needs to be deepened, because we can't have this investment of public money without then that having a direct impact on the economy."[56]

59. Cododd y Pwyllgor bryderon hefyd ynghylch i ba raddau y mae'r gost ariannol yn rhwystr o ran ei ddefnyddio. Esboniodd BT, oherwydd y gystadleuaeth ddwys rhwng y pedwar darparwr gwasanaethau rhyngrwyd mwyaf, bod y gost i'r defnyddiwr yn cwympo gyda phrisiau yn dechrau o gyn lleied â £5 y mis. Ar ben hynny, ar gyfer y rhai sy'n cael cymhorthdal incwm, mae cynnyrch BT Basic ar gael sy'n cynnig band eang am £10 y mis.[57]

60. Mewn tystiolaeth lafar, rhoddodd Llywodraeth Cymru sicrwydd i'r Pwyllgor fod gwaith wedi'i wneud i feithrin perthynas â phob awdurdod lleol yng Nghymru er mwyn cydweithio wrth ddefnyddio'r

[53] Cofnod y Trafodion, paragraffau 111-113, 7 Gorffennaf 2015
[54] Cofnod y Trafodion, paragraff 114, 7 Gorffennaf 2015
[55] Cofnod y Trafodion, paragraff 118, 7 Gorffennaf 2015
[56] Cofnod y Trafodion, paragraff 209, 30 Mehefin 2015
[57] Cofnod y Trafodion, paragraffau 218-219, 30 Mehefin 2015

seilwaith band eang sy'n cael ei adeiladu. Yn ogystal, mae'r sylw yn awr yn troi tuag at ei ddatblygiad a'r niferoedd sy'n ei ddefnyddio.[58]

61. Rhoddodd Llywodraeth Cymru fanylion am y camau a gymerwyd er mwyn gwella darpariaeth y buddion llawn o ganlyniad i'r buddsoddiad cyhoeddus mewn band eang. Amlygodd yr ohebiaeth bwysigrwydd helpu defnyddwyr i ddeall manteision band eang cyflym iawn ac y byddai hynny'n rhan allweddol o'r dull cyfathrebu a marchnata diwygiedig sy'n cael ei ddatblygu. Cadarnhawyd hefyd fod strategaeth rheoli buddion yn cael ei datblygu, a fydd yn dal y buddion amrywiol i ddefnyddwyr a chymdeithas yn ogystal â'r buddion sy'n deillio o'r rhaglen ymelwa busnes cenedlaethol.[59]

62. Ar 22 Medi 2015, gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ddatganiad pellach yn y Cyfarfod Llawn yn cyhoeddi rhaglen ymelwa busnes band eang cyflym iawn ledled Cymru, gwerth £12.5 miliwn am bum mlynedd. Dywedodd y Dirprwy Weinidog:

> "Mae cyllid y rhaglen yn dod o gymysgedd o ffynonellau Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a chyllid ERDF yr UE—sef £7 miliwn ohono—a ffynonellau academaidd a sector preifat. Bydd yn cefnogi busnesau bach a chanolig eu maint yn bennaf, i ddeall, mabwysiadu ac ymelwa ar y seilwaith cyflym iawn."[60]

63. Mae argymhelliad 3 o adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn datgan y dylai Llywodraeth Cymru bennu targedau dyheadol ar gyfer band eang i ganolbwyntio ymdrechion ar annog defnydd, casglu gwybodaeth am sut y mae busnesau a thrigolion yn defnyddio band eang y genhedlaeth nesaf, a gweithio gyda rhanddeiliaid perthnasol i feincnodi yn erbyn gwledydd eraill.

64. Yn ddiweddar, gosododd Llywodraeth Cymru darged 50 y cant erbyn 2024 o ran y niferoedd a fydd yn defnyddio band eang cyflym iawn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i weithio ar gynllun newydd i ddarparu cyflymderau cyflym iawn i bob cartref a busnes ledled Cymru. Bydd hynny'n adeiladu ar lwyddiant y cynllun Mynediad

---

[58] Cofnod y Trafodion, paragraff 20, 30 Mehefin 2015
[59] PAC(4)-20-15 Papur 1, 7 Gorffennaf 2015
[60] Cofnod y Trafodion, Cyfarfod Llawn, 22 Medi 2015

Band Eang Cymru ac fe fydd yn defnyddio ystod o dechnolegau gan gynnwys lloeren, diwifr a 4G i ddarparu cyflymder cyflym iawn.[61]

*Ein barn ni*

65. Rydym yn croesawu'r ffaith fod Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau ffurfiol yn ddiweddar ar gyfer y niferoedd a fydd yn manteisio ar fand eang y genhedlaeth nesaf, yn enwedig o ystyried cost y prosiect a'r angen am atebolrwydd.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth, mewn egwyddor, i gynnwys, fel isafswm mewn contractau yn y dyfodol, manylion am dargedau dyheadol a'r disgwyliadau o ran erbyn pryd y dylid eu cyrraedd.**

66. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod pwysigrwydd helpu defnyddwyr i ddeall manteision band eang cyflym iawn ac mae'n croesawu'r gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru i adolygu ei dulliau cyfathrebu a marchnata i gyflawni hynny. Rydym hefyd yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi datblygu strategaeth rheoli buddion er mwyn dal y buddion sy'n deillio o'r rhaglen ymelwa busnes cenedlaethol.

**Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor, am y gwaith i wella cyfathrebu a marchnata ynghylch manteision mynediad at fand eang cyflym iawn, heb fod yn hwyrach na mis Medi 2016.**

67. I gloi, roedd yr Aelodau'n pryderu nad oedd cyfathrebu digonol am Cyflymu Cymru y tu hwnt i gwsmeriaid presennol BT ac y dylai BT ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb dros hysbysebu argaeledd Cyflymu Cymru i gwsmeriaid nad ydynt yn gwsmeriaid BT.

---

[61] www.gov.uk/government/news/over-42000-more-premises-in-wales-set-to-receive-superfast-broadband.cy [Fel ar 9 Hydref 2015]

## Atodiad A: Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau tystiolaeth lafar yn www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=1311

| *Enw* | *Sefydliad* |
|---|---|
| **30 Mehefin 2015** | |
| Ann Beynon OBE | BT Cymru |
| Ed Hunt | Cyflymu Cymru (BT) |
| **7 Gorffennaf 2015** | |
| James Price | Llywodraeth Cymru |
| Simon Jones | Llywodraeth Cymru |